Hyfforddi Cyn Gêmau yng Nghymru – Cylchlythyr

Rhagfyr 2009

Tair Gwlad o Hemisffer y De yn dod i Gymru!

De Affrica yw'r wlad ddiweddaraf i ddewis Cymru yn lleoliad ar gyfer hyfforddi cyn Gêmau. Bydd tîm Paralympaidd De Affrica yn dod i Gaerdydd cyn i'r Gêmau Paralympaidd gael eu cynnal yn Llundain yn 2012.

Mae De Affrica yn ymuno ag Awstralia a Seland Newydd yng Nghymru; roedd y ddau dîm Paralympaidd hwnnw eisoes wedi cyhoeddi y byddent yn dod yma i baratoi ar gyfer y Gêmau. Penderfynodd Cydffederasiwn Chwaraeon a Phwyllgor Olympaidd De Affrica (SASCOC) ddewis Caerdydd yn lleoliad hyfforddi ar gyfer eu tîm Paralympaidd ar ôl misoedd o drafod a gwaith caled tu ôl i'r llenni a chystadlu chwyrn yn erbyn Llundain a Leeds. I roi'r cyhoeddiad hwn yn ei gyd-destun, mae 16 gwlad wedi llofnodi cytundebau gyda gwahanol rannau o'r DU hyd yma i sefydlu gwersylloedd hyfforddi cyn y Gêmau yn 2012. Mae llawer o'r cytundebau hynny ar gyfer timau Olympaidd neu Baralympaidd bach iawn neu'n gytundebau ar gyfer chwaraeon unigol - nid gwersylloedd amlddisgyblaethol ar gyfer nifer fawr o athletwyr a staff cynorthwyol. Bellach, mae bron i ugain y cant o'r cytundebau wedi dod i Gymru, ac mae ein gwersylloedd ni oll yn rhai mawr amlddisgyblaethol. Mae hyn yn golygu bod tua 500 o aelodau'r timau yn mynd i ddod yma i Gymru cyn y Gêmau Paralympaidd.

Mae'n debygol y bydd tîm De Affrica yn cynnwys nifer o athletwyr Paralympaidd amlwg, megis Oscar 'Blade runner' Pistorius, rhedwr sydd wedi cael torri dau o'i gymalau i ffwrdd a deiliad record y byd yn y 100, 200 a'r 400 metr, a'r nofwraig Natalie De Toit - mae hithau wedi cael torri un o'i chymalau i ffwrdd, a'r llynedd daeth yr athletwr cyntaf â'r anabledd hwnnw i gyrraedd y Gêmau Olympaidd ers 1928. Daeth hi'n unfed ar bymtheg yn y ras nofio dŵr agored 10km yn Gêmau Beijing, cyn mynd ymlaen i gystadlu yn y Gêmau Paralympaidd; yno, llwyddodd i ennill 5 medal aur, yn union fel y gwnaeth yn Athen bedair blynedd ynghynt.

DULL PARTNERIAETH

Daeth ein llwyddiant o ran denu Paralympiaid Awstralia, Seland Newydd a De Affrica o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau allweddol, gan gynnwys darparwyr cyfleusterau, Cynghorau Dinas Abertawe, Casnewydd a Chaerdydd, Chwaraeon Anabledd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ran yr holl bartneriaid, diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn. Rydyn ni bellach wrthi'n creu'r amgylchedd perffaith iddynt baratoi ar gyfer 2012 a fydd yn sicrhau bod gan eu hathletwyr, eu hyfforddwyr a'u timau rheoli y seilwaith a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i lwyddo yn y Gêmau.

YMWELIADAU RHYNGWLADOL

Hoffai Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymdrechion i ddenu cynrychiolwyr Olympaidd a Pharalympaidd Cenedlaethol i Gymru dros y chwe mis diwethaf. Rydyn ni wedi croesawu swyddogion o Awstralia, Seland Newydd, India, Belarws, Papua Guinea Newydd, Siapan, Slofacia, yr UDA a De Affrica sydd wedi bod yn holi ynglŷn â hyfforddi yng Nghymru.

Mae sawl tîm wedi rhoi gwybod inni eu bod wrthi'n paratoi'n derfynol ar gyfer Gêmau Olympaidd y Gaeaf, a gynhelir fis Chwefror nesaf, a Gêmau'r Gymanwlad 2010 yn Delhi, ac y byddant wedi'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio eu sylw ar leoliadau Hyfforddi Cyn Gêmau ar gyfer Llundain 2012.

Mae croeso ichi gysylltu â David Evans yn y cyfeiriad isod i ofyn am restr gynhwysfawr o'r gwledydd rydym wedi dod i gysylltiad â nhw hyd yn hyn.

Fel y nodwyd yn y cylchlythyr diwethaf, mae angen eich help a'ch cyfraniad chi i ddenu athletwyr a thimau i bob rhan o Gymru. Dyma ofyn ichi ddefnyddio'ch cysylltiadau rhyngwladol i'n helpu i sefydlu trafodaethau â rhagor o wledydd. Gall unrhyw un sydd â chysylltiad mewn unrhyw ffordd, neu a allai ddylanwadu ar unrhyw dîm Olympaidd neu Baralympaidd o unrhyw wlad, wneud gwahaniaeth mawr.

Er enghraifft, mae'n sicr y bydd gan Gyrff Llywodraethu yng Nghymru gysylltiadau rhyngwladol â Hyfforddwyr Cenedlaethol sydd fwy na thebyg yn y sefyllfa orau i werthu'r hyn sydd gennym i wledydd eraill. Gall athletwyr, gweinyddwyr rhyngwladol Cyrff Llywodraethu, dyfarnwyr a beirniaid hefyd ddefnyddio eu cysylltiadau wrth gynrychioli Cymru a/neu y DU yn rhyngwladol. Gall Awdurdodau Lleol chwarae rhan hefyd, yn enwedig rhai sydd wedi'u gefeillio â rhanbarthau o gwmpas y byd. Does dim rhaid i'r cysylltiad fod yn un sy'n ymwneud â chwaraeon. Cafodd llawer o'r cytundebau a lofnodwyd hyd yn hyn ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU eu crybwyll gyntaf trwy gysylltiadau a wnaed yn y sector Addysg Uwch. Mae cytundebau eraill wedi'u trefnu trwy gysylltiadau diwylliannol neu wleidyddol! Gallai'r cysylltiadau hyn hwyluso mynediad at Bwyllgor Olympaidd neu Baralympaidd y wlad benodol honno ar ein rhan, ac argymell eu bod yn trafod y mater ymhellach â ni, neu'n ddelfrydol eu bod yn ymweld â Chymru i weld yr hyn sydd gennym i'w gynnig â'u llygaid eu hunain.

Grantiau Hyfforddi Cyn Gêmau Pwyllgor Trefnu Gêmau Llundain (LOCOG) – HYD AT £25,000

Mae LOCOG wedi creu Canllaw ar-lein i Wersylloedd Hyfforddi Cyn Gêmau (www.london2012.com/trainingcamps), sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â mwy na 600 o safleoedd hyfforddi uchel eu hansawdd ledled y DU a ddewiswyd gan LOCOG. Yn ogystal â hynny, mae LOCOG wedi ymrwymo i gyfrannu hyd at £25,000 (heb TAW) i bob Pwyllgor Olympaidd neu Baralympaidd Cenedlaethol sy'n dod ag athletwyr a hyfforddwyr i baratoi yn unrhyw un o'r cyfleusterau achrededig a gynhwysir yn y Canllaw. Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch sut gall Pwyllgorau Olympaidd neu Baralympaidd Cenedlaethol elwa ar y cyfraniad hwn trwy glicio ar y dolenni isod.

DOLENNI
Canllaw i'r Cyfraniadau Ariannol ar gyfer Gwersylloedd Hyfforddi Cyn Gêmau
http://trainingcamps.london2012.com/about-our-training-camps/financial-award.aspx

MARCHNATA PENODOL I GYFLEUSTER

Mae Pwyllgor Trefnu Gêmau Llundain (LOCOG) wedi darparu ystadegau gwerthfawr ynghylch 'cyfranogiad fesul cenedl' o Gêmau Beijing, sydd ar gael trwy ddilyn y ddolen isod.

Cyfranogiad fesul cenedl

Mae'r data hwn yn caniatáu i ni weld pa genhedloedd fu'n cystadlu ym mha chwaraeon yng Ngêmau Beijing, ac yn rhoi cyfle i ni gydweddu ein cyfleusterau chwaraeon â chenhedloedd targed ar sail ranbarthol neu eu cysylltu'n benodol â chyfleusterau. Mae rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru yn weithgar yn y broses hon ac wedi datblygu rhestr fer o genhedloedd targed yn seiliedig ar eu cyfleusterau a'u cysylltiadau cyfredol. Yn ddiweddar, sefydlwyd grŵp Hyfforddi Cyn Gêmau â chynrychiolaeth o'r Gogledd Orllewin a'r Gogledd Ddwyrain, gyda'r nod o gynnal trafodaethau pellach ar y cyd.

Cynghorir lleoliadau chwaraeon unigol (e.e. Prifysgol Aberystwyth - Beicio Mynydd, Canolfan Ganŵio Ryngwladol Caerdydd, Clwb Hwylio Pwllheli ac ati) i edrych ar y data cyfranogi i weld pa genhedloedd a fu'n cystadlu yn Beijing ac sy'n debygol o gystadlu eto yn Llundain. Pan fydd hyn wedi'i wneud, gellir cysylltu'n uniongyrchol â'r cyswllt perfformio priodol yn y Ffederasiynau Chwaraeon Cenedlaethol, gan anfon deunydd marchnata penodol atynt. Unwaith eto, bydd David yn helpu'r broses hon lle bydd yn gallu.



NEWYDDION ARALL

Bydd y cyffro ynglŷn â'r Gêmau'n cyrraedd ei anterth wrth inni nesáu at 2012. Mae darparu ar gyfer gofynion y timau sy'n dod i Gymru'n dod â llawer o gyfleoedd inni greu etifeddiaeth i chwaraeon yng Nghymru, gyda sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn dymuno cymryd rhan. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o brosiectau sydd naill ai ar y gweill neu ar gamau cynnar yn eu datblygiad. Bydd mwy o enghreifftiau'n ymddangos yn y cylchlythyr nesaf.

1. Ffisiotherapyddion yn cefnogi athletwyr o bob gallu

Bydd y rhaglen yn cynnwys cefnogaeth ffisiotherapi/tylino corff gan wirfoddolwyr hyfforddedig ym maes chwaraeon anabledd ledled Cymru er mwyn paratoi at y galw yn 2012, ac yn hyrwyddo ymarfer corff diogel ledled Cymru. Bydd hefyd yn rhoi cyfle prin i ffisiotherapyddion gael profiad ymarferol o chwaraeon ar y lefel uchaf, ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfrannu'n bersonol at lwyddiant Gêmau Olympaidd 2012. O ganlyniad i'r rhaglen hon, bydd ffisiotherapyddion gwirfoddol cyffredinol ac arbenigol ar gael ar wahanol lefelau. Byddant yn sicrhau bod y gwersylloedd a'r lleoliadau hyfforddi'n cael eu cynnal yn ddidrafferth, yn cynorthwyo i reoli triniaeth therapiwtig athletwyr, neu'n darparu Cymorth Cyntaf, ffisiotherapi a thylino chwaraeon yn annibynnol, yn dibynnu ar anghenion y timau. Yn ddiweddar, dyfarnwyd Nod Inspire L2012 i'r prosiect.

2. Oscar 'Blade Runner' Pistorius

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gobeithio y bydd Oscar Pistorius a Natalie Du Toit, y Paralympiaid byd enwog o Dde Affrica, yn ymweld â Chymru i hyrwyddo penderfyniad Tîm Paralympaidd De Affrica i ddod yma i ymarfer cyn y gêmau. Y gobaith yw y bydd Oscar yn ymweld ag ysgolion a chymunedau lleol ac yn ysbrydoli pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, gan hybu delfrydau'r mudiad Paralympaidd.

3. Noddwyr Gêmau 2012

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n trafod ag amrywiol noddwyr Gêmau 2012, gyda'r nod o sicrhau gwerth ychwanegol ar gyfer y Gwersylloedd Hyfforddi Cyn Gêmau, yn ogystal â rhoi profiad o'r Gêmau i staff sydd am

gymryd rhan. Y gobaith yw y bydd hwn yn rhoi hwb i nifer y gwirfoddolwyr ar gyfer y Gêmau ac yn helpu i ddatblygu chwaraeon yn y dyfodol.

4. Digwyddiadau

Mae'r cyfle i athletwyr rhyngwladol gymryd rhan mewn digwyddiadau wrth nesáu at Lundain 2012 yn rhan bwysig o'r paratoi ar gyfer y gêmau. Mae Llywodraeth y Cynulliad am weithio gyda Chyrff Llywodraethu yng Nghymru i glustnodi digwyddiadau priodol y gellir eu datblygu er mwyn i'n hymwelwyr rhyngwladol gael cyfle i gystadlu cyn Gêmau 2012. Byddai rhaglen o ddigwyddiadau cyn Llundain 2012 yn gyfle i ysgolion a chymunedau lleol weld a chael profiad o'r athletwyr Olympaidd a Pharalympaidd yng Nghymru, ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i wirfoddoli, hyfforddi a meithrin sgiliau.

5. Rhaglenni Cyfnewid Athletwyr/Hyfforddwyr

Mae'r cysylltiadau byd-eang ym maes chwaraeon yn dod â chyfleoedd i sefydlu rhaglenni cyfnewid athletwyr a hyfforddwyr. Gyda'r Cwrs Canŵio Slalom Rhyngwladol yn agor yng Nghaerdydd ddechrau 2010, mae Undeb Canŵio Cymru yn edrych ar y posibilrwydd o drefnu rhaglenni cyfnewid â Phwyllgor Olympaidd Slofacia. Y Slofaciaid yw canŵwyr slalom gorau'r byd, ac mae eu tîm yn cynnwys Michal Martikan, y Pencampwr Olympaidd presennol.

DYDDIADAU ALLWEDDOL:

Gêmau Olympaidd – 27 Gorffennaf – 12 Awst 2012

Gêmau Paralympaidd – 29 Awst – 9 Medi 2012

Gan fod rhai lleoliadau yn derbyn archebion cynadleddau flynyddoedd ymlaen llaw, mae'n werth nodi dyddiadau'r Gêmau Olympaidd a Pharalympaidd. Mae'n werth cofio y gallai Pwyllgorau Olympaidd a Pharalympaidd fod angen y cyfleusterau hyd at fis cyn y Gêmau.

Rydyn ni'n deall nad yw'n benderfyniad hawdd i oedi wrth drefnu cynadleddau neu hyd yn oed golli busnes yn y gobaith o ddenu tîm Olympaidd neu Baralympaidd, yn enwedig gan fod rhai cenhedloedd yn gadael paratoadau L2012 tan y funud olaf. Drwy weithio ar y dybiaeth y gallai fod angen eich cyfleuster ar gyfer hyfforddiant hyd at fis cyn y ddwy set o Gêmau, gallwch wneud penderfyniad cytbwys.

.

DOLENNI AR GYFER HYFFORDDI CYN GÊMAU

Gellir dod o hyd i'r Canllaw swyddogol ar gyfer Gwersylloedd Hyfforddi Cyn Gêmau ar gyfer Llundain 2012 ar: **www.london2012.com/trainingcamps**

Mae Llundain 2012 yn Dechrau Yma…
Mae'r fersiwn ar-lein diweddaredig o lyfryn *L2012 yn Dechrau Yma* i'w gael drwy ddilyn y ddolen hon: **http://www.meetings.visitwales.com/server.php?show=nav.9327**

Gellir dod o hyd i'r wefan Digwyddiadau Mawr a chopïau o gylchlythyrau blaenorol ar wefan Digwyddiadau Mawr Llywodraeth y Cynulliad:
http://www.visitwales.co.uk/things-to-do-in-wales/major-events/olympics-london-2012/

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau uchod, mae croeso i chi gysylltu â:

David Evans
Pennaeth Hyfforddi Cyn Gêmau L2012 yng Nghymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
+44 (0)29 2047 5324
+44 (0)7815 427541
E-bost: david.evans5@wales.gsi.gov.uk